

# SL(5)448 – Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif. 3) 2019

## Cefndir a Diben

Mae Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018 ("Gorchymyn 2018") yn cynnwys mesurau i atal cyflwyno a lledaenu plâu a chlefydau niweidiol i blanhigion. Mae Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif. 3) 2019 ("Gorchymyn 2019") yn diwygio Gorchymyn 2018 i weithredu mesurau rheoli i leihau'r risg o gyflwyno a lledaenu amrywiol blâu a chlefydau yng Nghymru.

## Y weithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

**Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.**

- 1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Nid ydym yn glir a yw'r eitem 64 newydd yn y tabl yn Rhan A o Atodlen 4 i Orchymyn 2018 yn adlewyrchu'n gywir y pwynt 34 newydd yn Adran 1 o Ran A o Atodiad IV i Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC. Rydym yn amau a ddylai'r cyfeiriad ym mharagraff (c)(ii)(bb) yn nhrydedd golofn y tabl ym mharagraff 7(a)(ix) o Orchymyn 2019 at y "gofynion a bennir ym mharagraff (a)" nodi'r "gofynion a bennir ym mharagraffau (a) a (b)".

Rydym hefyd am gael eglurhad a ddylai'r cyfeiriad ar ddiwedd paragraff (c)(ii)(bb) gyfeirio at is-baragraff (c) yn hytrach nag is-baragraff (i).

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Mae Gorchymyn 2018, sy'n cael ei ddiwygio gan yr offeryn hwn, yn gweithredu amryw rwymedigaethau'r UE mewn perthynas â chyfraith iechyd planhigion. Bydd Gorchymyn 2018, fel y'i diwygiwyd, yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl y diwrnod ymadael.

## Ymateb y Llywodraeth

O ran y cwestiwn a ofynnwyd, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ac yn ystyried bod angen diwygio'r cyfeiriad hwn. Bydd y newid hwn yn cael ei wneud pan fydd y cyfle nesaf yn codi.

O ran yr eglurhad y gofynnwyd amdano, barn Llywodraeth Cymru yw bod y cyfeiriad ar ddiwedd paragraff (c)(ii)(bb) at is-baragraff (i) yn gywir.



## Trafodaeth y Pwyllgor

---

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 14 Hydref 2019 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd uchod a nodwyd a hefyd i dynnu sylw at faterion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

